# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Practis Deintyddol Tywi / Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 13 Mehefin 2017

Dyddiad cyhoeddi: 14 Medi 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-4734-9919-5



© Hawlfraint y Goron 201

# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........ 7

Ansawdd profiad y claf ........ 8

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 12

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 18

4. Beth sydd nesaf? ........ 20

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........ 21

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 22

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 23

Atodiad C – Cynllun gwella ........ 24

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwirio bod pobl Cymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu'n agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol ar sail yr hyn rydym yn ei weld**
- **Cydweithredol: rydym yn adeiladu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull o weithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur.**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Mynegi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisïau, safonau ac arferion.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Tywi  yn 22 Heol Crescent, Llandeilo, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ar 13 Mehefin 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad) ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod Practis Deintyddol Tywi yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion, mewn amgylchedd cynnes a chyfeillgar. Roedd yr adborth a gawsom gan gleifion yn gadarnhaol iawn. Roedd agwedd y staff wrth gyflenwi'r gwasanaethau deintyddol yn ymddangos yn garedig ac urddasol.

Roedd uwch-aelodau o staff y practis yn barod iawn i gynorthwyo ac annog gweddill y staff i gyflenwi'r gwasanaethau gorau posibl i'w cleifion.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Trin y cleifion gyda pharch ac urddas
- Dywedodd y staff wrthym y teimlent fod y rheolwyr yn eu cefnogi a bod pawb yn gweithio'n dda fel tîm
- Roedd cyfleusterau a chyfarpar yr ystafelloedd triniaeth yn dda, ac yn amlwg yn lân a hylan
- Gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n dda iawn ac y gweithredid polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau da
- Roedd y staff yn ymgymryd â'u swyddi yn hyderus, ac yn amlwg wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da i'r cleifion.

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwella'r cyfleusterau ar gyfer storio gwastraff clinigol
- Sicrhau bod yr holl staff yn cael yr hyfforddiant sy'n ofynnol mewn da bryd
- Sicrhau y cyflawnir gwiriadau trwyadl cyn cyflogi
- Sefydlu mecanwaith ffurfiol i ddarparu adborth ynghylch safbwyntiau'r cleifion

  Cynnwys rhagor o fanylion yn nodiadau'r cleifion ynglŷn ag opsiynau triniaethol, y cyfiawnhad dros gynnal archwiliadau pelydr-X, a'r risgiau o ganser geneuol.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Tywi yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Llandeilo.

Mae’r tîm staff a gyflogir gan y practis yn cynnwys y prif ddeintydd, deintydd cyswllt, dau hylenydd deintyddol, pedair nyrs ddeintyddol, derbynnydd a rheolwr practis.

Mae’r practis yn darparu ystod o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwelsom dystiolaeth fod y cleifion a ddefnyddiai'r practis yn cael eu trin gydag urddas, tosturi a pharch gan holl aelodau'r tîm.

Yn gyffredinol, canfuom fod Practis Deintyddol Tywi yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion mewn amgylchedd dymunol a chyfeillgar. Roedd y deintyddion, yr hylenydd deintyddol a'r nyrs ddeintyddol i gyd yn cydweithio'n dda fel tîm ac yn amlwg yn deall anghenion eu cleifion.

Gwelsom dystiolaeth eglur fod y practis yn cael ei reoli'n dda, a bod y staff yn gwbl ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau.

Cyn ein hymweliad â'r practis, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion, er mwyn casglu eu safbwyntiau ynglŷn â'r gwasanaethau deintyddol a ddarperid.

Cwblhawyd 17 o holiaduron AGIC, ac yr oedd pob un ohonynt yn dynodi bod y cleifion yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a gawsant gan y practis deintyddol. Yn yr holiaduron, gofynnwyd i'r cleifion sut y gallai'r practis wella'r gwasanaeth a ddarperid ganddo, a'r unig ymatebion a gafwyd oedd y canlynol:

"Ni allaf feddwl am unrhyw beth ar y funud"

"Mae'n berffaith foddhaol fel y mae"

"Rwy'n hapus gyda'r gwasanaeth"

### Cadw'n iach

Gwelsom gyflenwad digonol o ddeunydd hybu iechyd a deunydd addysgol yn y mannau aros, a oedd yn darparu gwybodaeth werthfawr i'r cleifion, i'w galluogi i ofalu am eu hiechyd geneuol.

Roedd y practis wedi sefydlu ei wefan ei hunan, a oedd yn darparu gwybodaeth werthfawr am sut i archebu apwyntiadau, rhestrau prisiau a'r gwasanaethau a

ddarperid, yn ogystal â sut i fynegi pryder neu gŵyn. Roedd yr wybodaeth hon ar gael yn hwylus hefyd yn y mannau aros.

Dywedodd pob un o'r cleifion a lenwodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi trafod gyda hwy sut y gallent gadw eu ceg a'u dannedd mewn cyflwr iach.

## Gofal ag urddas

Trwy gydol yr archwiliad, sylwem fod aelodau o'r staff yn cyfarch y cleifion mewn ffordd gwrtais ac urddasol. Fodd bynnag, ac eithrio yn yr ystafelloedd triniaeth, nid oedd lle i'r staff gynnal trafodaeth breifat gyda chlaf. O ganlyniad, cynhelid yr holl ymgynghoriadau deintyddol y tu ôl i ddrysau caeedig er mwyn diogelu preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd y cleifion.

Roedd y practis yn darparu gwasanaethau a thriniaethau'r GIG yn ogystal â rhai preifat. Roedd gwybodaeth am gostau'r triniaethau ar gael yn hwylus i'r cleifion yn y mannau aros.

Roedd yr holiaduron a lenwyd yn datgan yn eglur fod y cleifion yn fodlon iawn ar y gofal a'r triniaethau a ddarperid. Roedd pob holiadur yn nodi hefyd fod y cleifion wedi eu croesawu'n gynnes a diffuant gan y tîm ac wedi cael gwybodaeth ddigonol am eu triniaethau.

Yn ychwanegol, roedd pob claf a lenwodd holiadur yn teimlo ei fod wedi ei drin â pharch yn ystod ei ymweliad â'r practis.

### Gwybodaeth cleifion

Fel y nodwyd eisoes, roedd y practis wedi datblygu ei daflen practis a gwefan ei hunan. Roedd yr adnoddau hynny yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer cleifion am y manylion cyswllt mewn unrhyw argyfwng deintyddol.

Dywedwyd wrthym gan bob un o'r cleifion a lenwodd holiadur eu bod yn teimlo iddynt gael eu cynnwys yn y penderfyniadau a wnaed ynghylch eu triniaeth, a bod y tîm deintyddol wedi eu helpu i ddeall pa opsiynau a oedd ar gael, pan oedd angen triniaeth arnynt. Er bod mwyafrif o'r cleifion a lenwodd holiadur yn dweud bod cost y driniaeth wedi ei hegluro wrthynt cyn rhoi'r driniaeth, roedd nifer fach yn honni na chawsant eglurhad o'r gost. Cynghorir y practis, felly, i sicrhau bod yr holl gleifion/oedolion priodol yn cael gwybodaeth gyflawn yn ddieithriad ynglŷn â chost eu triniaethau.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd y practis yn darparu gwybodaeth ddwyieithog i gleifion, naill ai mewn taflenni neu bosteri o fewn y practis, neu ar ei wefan. Gallai'r staff gyfathrebu yn

ddwyieithog; roedd hynny'n ystyriaeth bwysig, gan fod nifer uchel o gleifion Cymraeg eu hiaith yn bresennol ar ddiwrnod ein hymweliad.

Roedd tua thraean o'r cleifion a lenwodd holiadur yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg, a phan ofynnwyd iddynt pa mor aml y gallent siarad â'r staff yn Gymraeg pan ddymunent wneud hynny, atebodd tua hanner y siaradwyr Cymraeg 'bob tro' ac atebodd y gweddill 'weithiau'. Dywedodd pob un o'r cleifion, nad oeddent yn siaradwyr Cymraeg ac a lenwodd holiadur, eu bod wedi llwyddo i siarad â'r staff bob tro yn yr iaith a ddewisent.

## Gofal amserol

Canfuom fod y practis yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Yn ystod ein hymweliad â'r practis, ni sylwasom ar unrhyw gleifion y gorfodwyd iddynt aros am gyfnod hir cyn gweld eu clinigwr dynodedig. Dywedwyd wrthym hefyd, pe digwyddai unrhyw oedi annisgwyl, y byddai'r cleifion yn cael esboniad a diweddariadau rheolaidd.

Dywedodd tua thraean o'r cleifion a lenwodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i gael mynediad i'r gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau, pe bai arnynt angen sylw ar frys ar gyfer problem ddeintyddol. Fodd bynnag, roedd rhifau cyswllt teleffon y tu allan i oriau ar gael yn y practis, ar negeseuon y peiriant ateb a recordiwyd, a hefyd ar wefan y practis

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Edrychasom ar sampl o gofnodion deintyddol deg o'r cleifion, a chanfuom fod eu hanesion meddygol yn cael eu diweddaru'n briodol pan oedd unrhyw newidiadau yn digwydd. Cadarnhawyd hyn yn yr ymatebion a gafwyd i'r holiaduron. Roedd pob claf a lenwodd holiadur yn cadarnhau bod y deintydd wedi ei holi ynghylch ei hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Roedd yr wybodaeth a gasglwyd o'r holiaduron yn dynodi bod y cleifion yn fodlon ar faint o gyngor a ddarperid iddynt yn ystod eu triniaethau/ymgyngoriadau.

### Hawliau pobl

Y drws ffrynt a ddefnyddid fel arfer i fynd i mewn i'r practis. Roedd grisiau wrth y drws hwnnw a allai beri anhawster i rai cleifion sydd â chyfyngiadau symudedd. Dywedwyd wrthym, fodd bynnag, y byddai unrhyw gleifion sy'n defnyddio

cymhorthion symudedd, megis cadair olwyn, yn cael eu cynghori i ddefnyddio'r fynedfa gefn.

Roedd y practis yn gweithredu polisi cyfle cyfartal, a oedd yn ddilys a phriodol.

## Gwrando a dysgu o adborth

Roedd y polisi a'r weithdrefn ddilys a ddilynid yn y practis ar gyfer rheoli cwynion yn cwmpasu triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat. Dywedodd cyfran helaeth o'r cleifion a lenwodd holiadur na wyddent sut y dylid datgan pryder neu wneud cwyn ynghylch y gwasanaethau a gawsant yn y practis deintyddol. Fodd bynnag, roedd yr wybodaeth a oedd ar gael, yn y practis ac ar ei wefan, yn cynnwys canllawiau eglur a syml ar y broses y dylid ei dilyn. Roedd yr holl wybodaeth a roddid yn gydnaws â'r canllawiau 'Gweithio i Wella'.[1] Yn ystod ein hymweliad, edrychasom ar y ffolder y cedwid y cwynion ynddi; roedd y cynnwys yn fanwl a thrwyadl ac yn dangos yn eglur fod y practis wedi ymateb yn amserol a phriodol.

Roedd y staff a'r rheolwyr wedi trin y cwynion fel cyfleoedd i ddysgu, ac wedi trafod y cwynion mewn cyfarfodydd o'r tîm os oedd hynny'n briodol.

Roedd y practis wedi darparu blwch sylwadau/awgrymiadau yn y man aros. Mae'r practis i'w ganmol am roi pwyslais ar yr agwedd honno ar brofiad y cleifion. Ar y pryd, fodd bynnag, ni weithredir unrhyw system ffurfiol i ddarparu adborth i'r cleifion ynghylch y sylwadau/awgrymiadau a wnaed. Rydym felly yn cynghori'r practis i werthuso a datblygu system i ddarparu adborth i'r cleifion, er mwyn gweithredu'n agored a thryloyw ac ategu pwysigrwydd yr agwedd hon ar reolaeth y practis.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Argymhellir bod y practis yn datblygu systemau a fydd yn galluogi cyflwyno adborth i holl gleifion cofrestredig y practis, fel ymateb i'r adborth a gaiff y practis gan y cleifion.

[1] Gweithio i Wella – canllawiau ar sut i fynegi pryder/cwyn o fewn GIG Cymru.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod y practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Daethom i'r casgliad bod y practis yn gweithredu gyda'r bwriad o gyrraedd y safonau perthnasol, gan sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Roedd yr amgylchedd yn y practis yn lân, yn olau ac yn awyredig. Roedd yr adeilad wedi ei gynnal yn dda, ac yn creu amgylchedd dymunol ar gyfer rhoi gofal a thriniaethau deintyddol i'r cleifion. Fodd bynnag, sylwyd ar rai meysydd y dylid eu gwerthuso a'u gwella.

Roedd trefniadau wedi eu gwneud i sicrhau y defnyddid cyfarpar pelydr-X yn ddiogel.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a lenwodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Canfuwyd bod profion ar offer a chyfarpar cludadwy yn cael eu cynnal yn brydlon a thrwyadl. Roedd diffoddyddion tân wedi eu gosod mewn mannau strategol yn yr adeilad ac yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd un toiled neillryw ar gael i'r cleifion ac un toiled arall ar gyfer y staff. Roedd y toiledau yn amlwg yn lân, cymen a hylan, ac yr oedd arwydd eglur wedi ei osod i gyfeirio at doiled y cleifion.

Roedd gan y practis systemau ar waith i reoli gwastraff. Er enghraifft, defnyddid dogfennau contractiol ar gyfer gwastraff (clinigol) peryglus a gwastraff (domestig) amheryglus. Yn ogystal, gweithredid polisi iechyd a diogelwch dilys.

Yn ystod ein hymweliad, canfuom fod oes ddefnyddiadwy rhai o'r nodwyddau deintyddol wedi dod i ben. Tynnwyd sylw'r prif ddeintydd at y mater hwnnw. O ganlyniad, argymhellwyd bod y practis yn sefydlu system a fydd yn canfod mewn da bryd pa offerynnau a chyfarpar sy'n nesáu at ddiwedd eu hoes ddefnyddiadwy, fel y gellir amnewid yr eitemau hynny.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau y cynhelir gwiriadau rheolaidd ar yr holl gyfarpar a stociau darfodus untro, er mwyn sicrhau nad yw eu hoes ddefnyddiadwy wedi dod i ben.

## Atal a rheoli heintiau

Yn gyffredinol, gwelwyd bod y practis yn lân a hylan. Roedd y cyfarpar yn cael ei storio a'i gynnal yn briodol, hyd at safon uchel. Roedd cyfarpar diogelu personol megis menig a ffedogau untro a sbectolau diogelwch ar gael yn hwylus i'r staff.

Yn ystod ein hymweliad, gwelsom fod gwastraff clinigol yn cael ei gadw mewn ciwbicl cawod yn nhoiled y staff. Cynghorwyd y practis i ailystyried y dull hwnnw o storio gwastraff clinigol, gan ei fod yn achosi risg i iechyd, ac yn tarfu ar urddas, y staff a oedd yn defnyddio'r toiled. Cytunodd y practis i ailedrych ar yr arfer hwn.

Canfuom fod gwiriadau ar bob un o'r awtoclafau [2] yn cael eu cynnal a'u dogfennu ddwywaith bob diwrnod.

Roedd y staff yn gwbl gyfarwydd â'r broses ddadheintio. Ar hyn o bryd, ymgymerid â'r dadheintio yn yr ystafelloedd triniaeth gan ddefnyddio un sinc ac un bowlen. Nid oedd sinc ddynodedig ar gael ar gyfer golchi dwylo. Roedd y practis deintyddol yn glanhau offerynnau deintyddol â llaw cyn eu prosesu trwy'r peiriannau awtoclaf. Mae glanhau â llaw yn ffordd dderbyniol o lanhau offerynnau deintyddol. Mae'r practis yn ystyried cynllun i ddatblygu ystafell ddadheintio unswydd a fydd yn cydymffurfio â'r canllawiau polisi a nodir ym

---

[2] Defnyddir awtoclafau i sterileiddio cyfarpar.

Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM 01-05).[3] Gwnaethom argymell y dylai'r practis baratoi cynllun gweithredu a fydd yn datgan yn eglur y bwriad o sefydlu ystafell ddadheintio unswydd ac yn cynnwys terfynau amser ar gyfer cyflawni'r datblygiad arfaethedig.

Ar y pryd, nid oedd y practis yn cynnal profion protein gweddilliol ar ei offerynnau. Er nad yw profion o'r fath yn ofynnol, cynghorir y practis i ystyried eu cynnal er mwyn dilysu effeithiolrwydd prosesau dadheintio presennol y practis.

Roedd y practis yn cynnal archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd, a oedd yn cydymffurfio â'r canllawiau polisi a nodir yn WHTM 01-05.

Sylwyd ar un pen cylchdröol endodontig[4] a oedd wedi ei ddadheintio ond nad oedd wedi ei gadw wedyn mewn bag. Gallai hynny fod wedi peri dryswch ynghylch statws hylendid yr offeryn. Argymhellir y dylai'r practis gadw'r pen cylchdröol mewn bag ar ôl ei ddadheintio, er mwyn lleihau'r posibilrwydd o ddryswch ynghylch ei statws hylendid a'r posibilrwydd o groes-heintio rhwng cleifion.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol bod y practis yn darparu manylion i AGIC o'r modd y mae'n bwriadu gwella'r dull presennol o storio gwastraff clinigol.

Mae'n ofynnol bod y practis yn darparu cynllun gweithredu i AGIC mewn perthynas â datblygu'r ystafell ddadheintio unswydd arfaethedig ac yn pennu terfynau amser posibl ar gyfer cwblhau'r datblygiad.

Argymhellir bod y practis yn cadw pennau cylchdröol endodontig mewn bagiau ar ôl eu dadheintio.

---

[3] http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444

[4] Offer a ddefnyddir mewn rhai triniaethau deintyddol yw'r pennau cylchdröol endodontig.

## Rheoli meddyginiaethau

Gweithredid prosesau a gweithdrefnau yn y practis i ymateb i unrhyw argyfyngau meddygol. Gwelwyd tystiolaeth oedd yn dynodi bod yr holl staff wedi cael hyfforddiant ar gyfer argyfyngau meddygol/dadebru cardio-anadlol. Roedd dau aelod o staff y practis wedi eu dynodi yn ddarparwyr cymorth cyntaf.

Canfuom fod cyfarpar digonol ar gael i ymdrin ag argyfyngau meddygol, megis ocsigen cludadwy, mygydau ocsigen addas, blychau cymorth cyntaf, offer sugno cludadwy a diffibriliwr allanol awtomatig. Roedd cyffuriau ar gyfer argyfyngau hefyd ar gael yn y practis. Roedd yr holl feddyginiaethau'n gyfredol o ran eu dyddiad ac yn cael eu gwirio'n rheolaidd a'u storio'n ddiogel. Defnyddid dull safonedig i adrodd am adweithiau anffafriol i gyffuriau penodol.

## Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Gweithredid canllawiau, polisïau a gweithdrefnau perthnasol yn y practis mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Canfuwyd bod pob aelod o'r staff, ac eithrio un, wedi cael yr hyfforddiant priodol mewn amddiffyn oedolion a phlant. Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn cael yr hyfforddiant gofynnol mewn diogelu plant ac oedolion, fel eu bod yn gwbl hyddysg a chyfarwydd â'r arferion gorau cyfredol.

Cawsom gadarnhad bod y staff i gyd wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Gwerthuswyd y prosesau ar gyfer gwirio cyn cyflogi, ac adnabuwyd rhai gwelliannau. Nid oedd gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi ei ddarparu ar gyfer un aelod o'r staff, ac nid oedd geirdaon ar gael ychwaith. Roedd y practis wedi gwneud cais am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn ein hymweliad ni. Argymhellir i'r practis sicrhau bod pob aelod o'i staff yn cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn brydlon, cyn dechrau gweithio yn y practis. Yn ychwanegol, dylai fod gan holl aelodau'r staff eirdaon, a fyddai'n gymorth i asesu eu huniondeb a'u haddasrwydd i weithio gydag unigolion a allai fod yn agored i niwed.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael ei hyfforddi yn brydlon ar gyfer diogelu plant ac oedolion.

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl wiriadau cyn cyflogi, gan gynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a geirdaon, wedi eu cwblhau yn llwyr cyn dechrau'r gyflogaeth.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd trefniadau wedi eu sefydlu ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-X yn ddiogel. Fodd bynnag, canfuom fod angen gwerthuso un o'r synwyryddion pelydr-X, er mwyn sicrhau ei fod yn darparu delweddau o'r ansawdd gorau, i gynorthwyo'r deintyddion gyda phenderfyniadau clinigol ynghylch triniaethau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Argymhellir y dylai'r practis werthuso un o'r synwyryddion pelydr-X a ddefnyddir ar hyn o bryd, fel y gellir darparu delweddau radiograffig o'r ansawdd gorau posibl er lles y cleifion.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ymdrechu'n gyson i wella'r gwasanaeth a gyflenwid. Cynhelid archwiliadau gan y practis yn rheolaidd. Edrychwyd ar archwiliadau a oedd yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Mewn trafodaethau gyda'r staff clinigol, deallwyd bod adolygiadau gan gymheiriaid yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Yn ychwanegol, cynhelid cyfarfodydd staff rheolaidd rhwng pob pedwar a chwech wythnos, a roddai gyfle i'r staff drafod pynciau a nodweddion newydd, megis diweddariadau i'r canllawiau lleol a chenedlaethol. Cedwid cofnodion o'r cyfarfodydd hynny.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd y practis yn gweithredu ac yn diweddaru polisïau a gweithdrefnau cyfoes ar gyfer diogelu data. Roedd gwybodaeth y cleifion wedi ei storio'n ddiogel a chyfrinachol, a rheolid y mynediad at sgriniau'r cyfrifiaduron. Roedd gan y practis, felly, systemau addas ar gyfer cynnal cyfrinachedd y cleifion.

### Cadw cofnodion

Yn gyffredinol, roedd safon y cofnodion a gedwid yn dda iawn. Edrychwyd ar sampl o gofnodion deg o'r cleifion, sef pump o gleifion pob un o'r deintyddion. Dangosai'r cofnodion clinigol fod y gofal a'r triniaethau a ddarperid i'r cleifion wedi eu cynllunio a'u cyflenwi yn unol â safonau uchel. Roedd y cofnodion yn

dynodi bod y gwasanaeth a ddarperid yn hybu iechyd geneuol, diogelwch a lles y cleifion a wasanaethid gan y practis. Canfuom nad oedd y risgiau o ganser geneuol nac ychwaith yr opsiynau triniaeth ar gyfer cleifion wedi eu dogfennu bob amser yn y cofnodion. Canfuom hefyd, ar ambell achlysur, nad oedd cyfiawnhad dogfennol dros gynnal archwiliad pelydr-X wedi ei gynnwys yn y cofnodion. Argymhellir bod y practis yn adolygu'r agweddau hyn ar y dogfennau a gynhwysir yng nghofnodion y cleifion.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Argymhellir bod y deintyddion yn cynnwys cofnod dogfennol o'r opsiynau triniaeth, y risgiau canser geneuol a'r cyfiawnhad dros gynnal archwiliadau pelydr-X yn yr holl gofnodion cleifion priodol.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom dystiolaeth fod y practis yn cael ei reoli'n dda iawn, ac arwyddion amlwg o arweinyddiaeth dda. Roedd y staff yn llwyr ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau, ac yr oedd y llinellau atebolrwydd yn eglur. Roedd ein trafodaethau gyda'r staff yn darparu cadarnhad o'u hymrwymiad i ddarparu gofal a thriniaethau o ansawdd uchel i'r cleifion.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd Practis Deintyddol Tywi yn darparu gwasanaeth deintyddol i'r boblogaeth leol yn Llandeilo a'r ardal o amgylch. Roedd gan y practis oddeutu 2,400 o gleifion cofrestredig.

Dywedodd pob un o'r staff a welsom ac y buom yn siarad â hwy yn ystod ein hymweliad eu bod yn hapus yn eu rôl ac yn cael cefnogaeth dda. Dywedwyd wrthym fod cyrsiau hyfforddi ar gael yn hwylus, a bod rheolwyr y practis yn hyrwyddo datblygiad y staff. Roedd yr arfarniadau blynyddol o'r staff yn eu hannog i barhau i ddatblygu yn broffesiynol.

Fel y nodwyd eisoes, roedd yr ystod eang o bolisïau a gweithdrefnau a weithredid yn darparu gwybodaeth werthfawr i'r staff. Roedd pob un o'r polisïau yn ddilys ac yn cynnwys dyddiadau ar gyfer eu hadolygu.

### Staff ac adnoddau

#### Gweithlu

Dangoswyd inni'r broses ar gyfer sicrhau hyfforddiant ymsefydlu cynhwysfawr i aelodau newydd o'r staff. Roedd llyfrynnau ymsefydlu wedi eu paratoi, a'r cyfnod ymsefydlu yn galluogi newydd-ddyfodiaid i ddeall nodweddion pwysicaf eu rolau newydd a'r polisïau a'r gweithdrefnau allweddol. Canfuom, fodd bynnag, nad oedd y broses ymsefydlu yn arddangos yn eglur fod aelodau

newydd o’r staff wedi darllen a deall y polisïau a’r gweithdrefnau allweddol. O ganlyniad, gwnaethom argymell y dylai’r unigolyn sy’n ymsefydlu lofnodi a dyddio dogfen sy’n tystio ei fod wedi deall prif gysyniadau’r polisïau a’r gweithdrefnau pwysig a weithredir yn y practis.

Roedd tystysgrifau AGIC y deintyddion yn cael eu harddangos fel sy’n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, a gwelsom dystiolaeth fod yswiriant indemnio wedi ei drefnu.

Nid oedd cofnodion ar gael o asesiadau o gyfarpar sgrin arddangos (DSE) aelodau unigol o’r staff. O ganlyniad, ni chawsom sicrwydd bod unrhyw beryglon posibl wedi eu canfod a chamau wedi eu cymryd i leihau unrhyw risg i iechyd a diogelwch. Argymhellir bod y practis yn cynnal yr asesiadau hyn ar adegau rheolaidd, er lles y staff a gyflogir gan y practis.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rydym yn argymell bod y broses ymsefydlu yn cynnwys cyfle i’r person a sefydlir lofnodi a dyddio’r ddogfen ymsefydlu, i ddynodi yn eglur ei fod wedi darllen a deall polisïau a gweithdrefnau allweddol y practis.

Rydym yn argymell bod yr holl staff yn cael asesiadau cyfarpar sgrin arddangos (DSE) ar adegau rheolaidd fel yr anogir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

# 4. Beth sydd nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon sydd angen sylw ar unwaith yn ystod ein harolygiad, sy'n gofyn am gamau gweithredu gan y gwasanaeth, mae'r rhain yn cael eu nodi yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle mae'r rhain yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon sydd angen sylw ar unwaith mewn perthynas â diogelwch cleifion, lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu maent yn eu cymryd i roi sylw i'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut y mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Mae unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi ei gofrestru gydag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau proffesiynol a chanllawiau perthnasol eraill fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol. Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon dybryd a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Tywi

## Dyddiad yr arolygiad: 13 Mehefin 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon lle roedd angen sicrwydd ar unwaith ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maen nhw'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion lle roedd angen sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth:

## Enw (llythrennau bras):

## Swydd:

## Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Practis Deintyddol Tywi

### Dyddiad yr arolygiad: 13 Mehefin 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, pan fynnir bod y cynllun gwella yn rhoi gwybod i ni am y camau gweithredu a gymerir gan y gwasanaeth i fynd i'r afael â'r materion y cyfeirir atynt.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Argymhellir bod y practis yn datblygu systemau a fydd yn galluogi cyflwyno adborth i holl gleifion cofrestredig y practis, fel ymateb i'r adborth a gaiff y practis gan y cleifion. | 6.3 Gwrando a dysgu o adborth<br>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 2.1 | Arddangosir poster adborth yn y dderbynfa, a gaiff ei ddiweddaru yn rheolaidd gydag adborth i'r cleifion.<br>Caiff y wefan ei diweddaru drwy gynnwys ynddi adborth/adolygiadau a fydd ar gael yn hwylus i'r cyhoedd. | Emyr Daniels – perchennog y practis | Awst 2017 |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Rhaid i'r practis sicrhau y cynhelir gwiriadau rheolaidd ar yr holl gyfarpar a stociau darfodus | 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd | Caiff dyddiadau terfynol y stociau darfodus eu gwirio yn rheolaidd, i | Emyr Daniels – perchennog y | Gorffennaf 2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| untro, er mwyn sicrhau nad yw eu cyfnodau defnyddiadwy wedi dod i ben. | a diogelwch<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (d) | sicrhau na chedwir dim ohonynt i'w cyfnodau defnyddiadwy. | practis | |
| Mae'n ofynnol bod y practis yn darparu manylion i AGIC o'r modd y mae'n bwriadu gwella'r dull presennol o storio gwastraff clinigol. | 2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio<br>Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Dyletswydd Gofal) 1991 a Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 | Bydd gwastraff clinigol yn cael ei storio mewn uned ddiogel dan glo y tu allan i adeilad y ddeintyddfa. | Emyr Daniels – perchennog y practis | Gorffennaf 2017 |
| Mae'n ofynnol bod y practis yn darparu cynllun gweithredu i AGIC mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig o ystafell ddadheintio | Canllawiau'r Cyngor Deintyddol | Paratowyd cynlluniau ar gyfer datblygiad yr ystafell ddadheintio ddynodedig. Mae'n debygol y cymerir rhwng tair a | Emyr Daniels – perchennog y | Gorffennaf 2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| unswydd, ac yn cyflwyno terfynau amser posibl ar gyfer cwblhau'r datblygiad.<br><br>Argymhellir bod y practis yn cadw pennau cylchdröol endodontig mewn bagiau ar ôl eu dadheintio. | Cyffredinol, Safon 1.5<br>WHTM 01-05<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (4) | phum mlynedd i'w chwblhau.<br><br>Bydd pennau ar gyfer yr offer llaw endodontig yn cael eu storio mewn bagiau hunan-selio cymeradwy ar ôl eu dadheintio. | practis<br><br>Emyr Daniels – perchennog y practis | Gorffennaf 2017 |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael ei hyfforddi yn brydlon mewn diogelu plant ac oedolion.<br><br>Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl wiriadau cyn cyflogi, gan gynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a geirdaon, wedi eu cwblhau yn llwyr cyn dechrau'r | 2.7 Diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl<br>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.3.3 ac 8.5 | Trefnwyd hyfforddiant.<br><br>Mae'r protocol recriwtio wedi ei adolygu a'i addasu i gynnwys gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a | Emyr Daniels – perchennog y practis<br><br>Emyr Daniels – perchennog y | Medi 2017<br><br>Gorffennaf 2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| gyflogaeth. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 13 (2)<br>Safon y Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.1.6 | gwirio geirdaon cyn cychwyn mewn swydd. | practis | |
| Argymhellir y dylai'r practis werthuso un o'r synwyryddion pelydr-X a ddefnyddir ar hyn o bryd, fel y gellir darparu delweddau radiograffig o'r ansawdd gorau posibl er lles y cleifion. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 1(b) | Bydd ansawdd y synhwyrydd pelydr-X yn cael ei asesu, ac addesir neu amnewidir y synhwyrydd os bydd angen. | Emyr Daniels – perchennog y practis | Awst 2017 |
| Argymhellir bod y deintyddion yn cynnwys | 3.5 Cadw | Bydd pob deintydd yn dilyn cwrs gloywi | Emyr Daniels – | Awst – Medi |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| cofnod dogfennol o'r opsiynau triniaeth, y risgiau canser geneuol a'r cyfiawnhad dros gynnal archwiliadau pelydr-X yn yr holl gofnodion cleifion priodol. | cofnodion<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 1(b)<br>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4 | ar yr arferion cofnodi cyfredol. | perchennog y practis | 2017 |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Rydym yn argymell bod y broses ymsefydlu yn cynnwys cyfle i'r person a sefydlir lofnodi a dyddio'r ddogfen ymsefydlu, i ddynodi yn eglur ei fod wedi darllen a deall polisïau a gweithdrefnau allweddol y practis.<br><br>Rydym yn argymell bod yr holl staff yn cael asesiadau cyfarpar sgrin arddangos (DSE) ar adegau rheolaidd fel yr anogir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. | 7.1 Gweithlu<br><br>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6.1<br><br>Rheoliadau Iechyd a | Caiff y ddogfen ymsefydlu ei haddasu i gynnwys llofnod y person a sefydlir a'r dyddiad y cwblheir y cyfnod ymsefydlu.<br><br>Bydd asesiadau cyfarpar sgrin arddangos (DSE) yn cael eu cynnal yn rheolaidd. | Emyr Daniels – perchennog y practis<br><br>Emyr Daniels – perchennog y practis | Awst 2017<br><br>Awst/Medi 2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Diogelwch (Cyfarpar Sgrin Arddangos) 1992 (diwygiwyd 2002) | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):** **Emyr Daniels**

**Swydd:** **Perchennog y practis/Arweinydd clinigol Practis Deintyddol Tywi**

**Dyddiad:** **29 Gorffennaf 2017**